



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 19EG HYDREF 2016 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), N.George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D.Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), K. James (Adfywio, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), D.V. Poole (Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Dai), T.J. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianeg), R.Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Cymunedau Corfforaethol) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

S.J. Byrne (Swyddfa Archwilio Cymru), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), T. Shaw (Pennaeth Peirianeg), C. Jones (Pennaeth Perfformiad ac Eiddo) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Harvard, Mrs B. Jones a N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151)

2. DATGANIADAU DIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nag yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET - 5ED HYDREF 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Hydref 2016 (rhifau cofnod. 1- 6) i'w cymeradwyo a'u llofnodi fel yn gofnod cywir.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

4. ADOLYGIAD SAC O DREFNIADAU I FYND I'R AFAEL AG ARCHWILIAD ALLANOL, ARGYMHELLION ARCHWILIO A RHEOLEIDDIO A CHYNYGION AR GYFER GWELLA - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Mae'r adroddiad yn darparu'r Cabinet gydag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar ei adolygiad o drefniadau i roi sylw i arolygu allanol ac argymhellion rheoleiddio a chynigion ar gyfer gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yng nghynllun Archwilio 2015-16, nododd y SAC y byddent yn asesu cynnydd y Cyngor wrth weithredu argymhellion o'u gwaith blaenorol. Fel rhan o'r gwaith dilynol, maent yn datgan y byddent yn ceisio sicrwydd fod gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar gyfer ymateb i'w hadroddiadau, olrhain gweithrediadau ar eu hargymhellion ac adrodd hyn wedyn i'r pywllgor priodol. Gwnaeth y SAC hwn trwy ymgymryd â gwaith dilynol penodol i bennu cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed mewn meysydd ar gyfer gwella sy'n deillio o'r Adroddiad Arolygiad Arbennig. Y mae'r dilyniad ar yr Arolygiad Arbennig a gwaith archwilio blaenorol yn ymwneud â:

- Hunanwerthuso
- AD a Chynllunio'r Gweithlu
- Awdit Mewnol
- Craffu

Daeth yr arolygiad i'r casgliad fod ymateb y cyngor i'w argymhellion a chynigion ar gyfer gwelliant yn cynnal gwelliant yn ei drefniadau hunan-arfarnu a chraffu, ond mae angen gwaith pellach er mwyn gwireddu gwendidau o ran Archwilio Mewnol ac Adnoddau Dynol, gyda rhai ohonynt yn hir sefydlog.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Nodwyd er bod yr adroddiad yn gadarnhaol ac roedd yn amlwg y gwnaed nifer o welliannau dros y 3 blynedd diwethaf, mae rhywfaint o welliant pellach angen cael ei wneud ac mae'r Cyngor yn barod i weithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cwrdd â'r argymhellion, fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD derbyn am y rhesymau oedd yn adroddiad y Swyddog ac fel yr amlinellwyd yn y cyfarfod

- (i) Y dylid nodi ymatebion Swyddogion i'r cynnig SAC ar gyfer gwella fel y manylir yn Atodiad 2 (Ymateb y Rheolwyr) o'r adroddiad;
- (ii) I gymeradwyo'r trefniadau monitro, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.3 yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, gan ychwanegu bod cofnodion y Panel Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn cael eu hadrodd i'r Cabinet.

5. ALLDRO CYFALAF 2015/16

Mae'r adroddiad, a gafodd ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar Hydref y 4ydd 2016, yn rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r alldro cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 a chyflwynodd fanylion y cynigion i ariannu gorwariant ar gynlluniau penodol.

Nodwyd bod y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 yn gyfanswm o £49.15m, ac yn cynnwys £12.86m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a £ 36.29m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (HRA). Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd grantiau penodol, llithriad a chyfraniadau ar gyfer gwahanol feysydd gwasanaeth gan fynd â chyfanswm yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael ar gyfer 2015/16 i £ 91.11m. Ceir crynodeb o'r alldro 2015/16 yn erbyn pob maes gwasanaeth wedi'i gynnwys o fewn yr adroddiad. Bydd y tanwariant o £7.4m o'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2015/16 yn cael ei barhau i'r flwyddyn ariannol 2016/17 i gefnogi'r rhaglen barhaus o waith i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Gall yr amrywiant Gronfa Gyffredinol o £22.69m gael ei rannu i mewn i £14.7m ar gyfer cynlluniau sydd ar y gweill neu sydd wedi cael eu hoedi yn 2015/16 (llithriad), tanwariant ar gyllidebau wedi'u clustnodi yn dod i gyfanswm o £7.6m, tanwariant ychwanegol o £868 mil sydd bellach wedi cael ei ryddhau i'r balansau cyfalaf a gorwariant yn erbyn cynlluniau cyfalaf hyd at werth £478mil.

Mae swyddogion yn cyfeirio at fanylion y gorwario ar 31 Mawrth 2016 yn ymwneud ag Adfywio Bargod (£197mil), Adfywio Trecelyn (£75mil) ac adnewyddu Hafod Deg (£67mil). Nodwyd bod y gorwariant hyn yn aros heb eu hariannu oherwydd gwariant a oedd yn anghymwys ar gyfer adennill o ffynonellau ariannu, ac felly roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y gorwariant o £339mil i gael ei gwrdd drwy nifer o ffynonellau o feysydd gwasanaeth cysylltiedig (fel yr amlinellir ym mharagraff 4.12 o'r adroddiad).

Yn ogystal, nododd yr Aelodau fanylion y rhwymedigaethau ychwanegol yn 2016/17 ar gyfer cynlluniau adfywio Bargod a Threcelyn a oedd yn gyfanswm o £85mil a gofynnwyd am gymeradwyaeth i ariannu'r costau hyn o Gyfraniad Refeniw i Wariant Cyfalaf (CRGC).

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnwyd am eglurhad ynghylch y Gyllideb wedi'i gorlannu ar gyfer Adnewyddu Trefol, gan gyfeirio at Ddatblygiad Sinema Bargoed. Nodwyd bod y cyllid yn parhau i fod yn y Gronfa Gyfalaf ar hyn o bryd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

- (i) nodi'r sefyllfa alldro cyfalaf 2015/16;
- (ii) y gorwariant mewn perthynas â Chynlluniau adfywio Bargod a Threcelyn a Hafod Deg gael ei ariannu o'r ffynonellau a nodir ym mharagraffau 4.12 a 4.13 o adroddiad y swyddogion.

6. CYNLLUN GWASANAETH Y GAEAF 2016-17

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 28ain o Fehefin 2016, a oedd yn amlinellu cefndir a chynnwys Cynllun Gwasanaeth Gaeaf y Cyngor ac yn egluro'r broses lle mae'n cael ei adolygu'n flynyddol. Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo'r ôl-ymgynghoriad Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf.

Nodwyd bod Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf wedi bodoli ers cychwyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac mae'n amlinellu cyfrifoldebau'r Cyngor ar gyfer cynnal y rhwydwaith seilwaith priffyrdd yn ystod cyfnod cynnal a chadw'r gaeaf. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Aelodau a Swyddogion, ac mae adborth a diwygiadau yn cael eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol, sydd wedyn yn cael ei ddosbarthu i bartïon priodol a'i roi ar wefan y Cyngor ym mis Hydref. Nodwyd os byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, byddai'r broses hon yn parhau ar gyfer tymor y gaeaf 2016-2017 ar ôl cwblhau proses ardystio'r Cabinet.

Mae nifer o adrannau yn cael eu hadolygu sy'n ymdrin â materion allweddol o fewn Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf, a oedd yn cynnwys 'Llwybr Graeanu a Hierarchaeth Ffyrdd', 'Stociau

Halen a Lleoliad', 'Rhagolygu'r tywydd' a 'Phroses Cais Bin Halen'. Diweddarwyd y Cabinet ar y mesurau rhagolygon tywydd sy'n cael eu defnyddio wrth wneud y penderfyniadau priodol ar gyfer digwyddiad rhewi neu dywydd a'r broses ymgynghori a gynhaliwyd er mwyn sicrhau bod llwybrau a gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu ar gyfer cyfnodau o dywydd garw.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog a'r tîm am yr adroddiad helaeth a'r gwaith a wnaed i sicrhau bod prif seilwaith y ffyrdd yn cael ei gynnal yn ystod tywydd garw. Trafododd y Cabinet y cynllun manwl a nodwyd nad oedd ysgolion yn Aberbargod wedi eu rhestru yn yr adroddiad. Cytunodd y swyddogion i ddiwygio'r adroddiad.

Hefyd cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyfnodau o dywydd garw, cynlluniau ar gyfer clirio eira a cheisiadau ar gyfer cyflenwi ac ail-lenwi biniau graean yn y fwrdeistref sirol. Eglurodd y swyddogion y byddai'r llwybrau, fel yr amlinellir yn y cynllun yn cael eu graeanu, dylai fod yn ofynnol, byddai'r prif ffyrdd yn cael eu clirio gydag aradr eira a byddai JCB's yn cael eu defnyddio'r diwrnod canlynol i gael gwared ar unrhyw eira dros ben dros gyffyrdd ac ati. Wrth gyfeirio at flychau Grit, cyfeiriwyd yr Aelodau at y siart llif, a oedd yn tynnu sylw at feysydd blaenoriaeth, os byddai galw uchel am raeau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo'r drafft Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf ar gyfer ymgynghori am y rhesymau yn adroddiad y swyddog.

ARGYMHELLION I'R CYNGOR

7. STRATEGAETH RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL

Mae'r adroddiad, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 4ydd o Hydref 2016, yn gofyn am farn yr Aelodau ar Drafft Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Eglurodd y swyddogion, yn dilyn adolygiad o Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor (Tir ac Eiddo) yn 2013, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) gwnaed 5 cynig ar gyfer gwella, a oedd yn cynnwys "datblygu Strategaeth Rheoli Asedau cadarn ar gyfer ei eiddo a seilwaith cysylltiedig" a " datblygu a gweithredu trefniadau i fonitro'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ". Ym mis Medi 2014, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau y dylai datblygu Strategaeth Rheoli Asedau diwygiedig gael ei ohirio hyd nes y bydd sefyllfa ariannol y Cyngor yn dod yn gliriach, cytunwyd ar Gynllun Ariannol diwygiedig Tymor Canolig diwygiedig (CATC) a gallai gwasanaethau gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Swyddogion yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2015, penderfynwyd y dylai Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMS) gael ei ddatblygu.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol yn ddogfen drosfwaol sy'n cyd-fynd â nodau corfforaethol y Cyngor. Mae'n nodi lle mae gan y Cyngor gynlluniau asedau gwasanaeth unigol priodol / strategaethau yn eu lle. Lle nad yw cynlluniau asedau o'r fath / strategaethau yn bresennol, yr her fydd i benderfynu a yw'r asedau hynny angen strategaethau ategol ac, os felly, erbyn pryd y gellir eu cyflawni? Mae'r CAMS wedi sefydlu cyfres o Egwyddorion, sydd wedi'u halinio i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae wedi datblygu nifer o Ganlyniadau, sef: Cydymffurfio, Cyflwr, Addasrwydd, Digonolrwydd, Hygyrchedd a Chynaliadwyedd. Y disgwyl yw y bydd yr holl gynlluniau asedau'r cyngor / strategaethau unigol yn adlewyrchu Egwyddorion a'r Canlyniadau hyn er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y CAMS. Bydd cynlluniau asedau gwasanaeth unigol Presennol/strategaethau yn cael eu hadolygu a'u diwygio i alinio â'r Egwyddorion a Chanlyniadau hyn.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am yr adroddiad a chanlyniad yr adolygiad a gynhaliwyd ar Ganolfannau Cymunedol. Nodwyd bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cynnal adolygiad mewn i'r Canolfannau Cymunedol ar draws y Fwrdeistref, ac o ganlyniad, caewyd 1 ac mae un arall i ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Bydd dal angen adolygiad pellach yn y dyfodol, ar Ganolfannau Cymunedol a llawer o asedau eiddo eraill y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y portffolio eiddo yn dal yn effeithlon ac nid yn ormodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

ARGYMHELLWYD i'r Cyngor i gymeradwyo'r Ddrafft Strategaeth Rheoli Asesau am y rhesymau yn adroddiad y Swyddog.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.08pm

Cymeradwywyd a Llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Hydref, 2016.

CADEIRYDD